**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 6: TREFNIANT LLYWODRAETHU AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD A MATERION POLISI CYNLLUNIO.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd y Model Llywodraethu yn Atodiad 1 ar gyfer paratoi y Cynllun Datblygu Lleol i'w cynnwys yn y Cytundeb Cyflawni Drafft.

Cytunwyd i sefydlu Gweithgor Polisi Cynllunio 15 aelod gyda'r Cylch Gorchwyl (Atodiad 2) i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Dirprwywyd hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau ieithyddol a man gywiriadau golygyddol i'r Cylch Gorchwyl.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn y penderfyniadau i dirwyn y trefniadau cyd weithio ffurfiol gyda Cyngor Sir Ynys Mon i ben ar materion polisi cynllunio yn cynnwys paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, roedd angen sefydlu trefniant llywodraethu newydd ar gyfer paratoi y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd a materion polisi cynllunio ar gyfer awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd i cychwyn ar y broses.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 7: CYFLWYNOCYFARWYDDYD ERTHYGL 4 ER MWYN GALLUOGI RHEOLI'R TROSGLWYDDIAD MEWN DEFNYDD O DAI PRESWYL I DDEFNYDD GWYLIAU (AIL-GARTREFI A LLETY GWYLIAU).

---

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd Papur Cyfiawnhau Cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Atodiad 1.

2. Cymeradwywyd gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 sydd ddim yn dod i rym yn uniongyrchol ond wedi 12 mis (Atodiad 2) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd er mwyn diddymu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y defnyddiau canlynol:
    a. Newid defnydd o C3 (prif gartref) i C5 (ail gartel) neu C6 (llety gwyliau tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol;
    b. Newid defnydd o C5 (ail gartref) i C6 (llety gwyliau tymor byr) a defnyddiau cymysg penodol;
    c. Newid defnydd o C6 (llety gwyliau tymor byr) i C5 (ail gartref) a defnyddiau cymysg penodol.

3. Cytunwyd bydd rhybudd o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar y ffurf yn Atodiad 3 i'w gyhoeddi a chyflwyno yn unol a'r gofynion (gan dderbyn nad yw yn ymarferol i gyflwyno yn unigol i bob perchennog a meddiannwr o fewn yr ardal oherwydd ei maint) am gyfnod o ddim llai na chwe wythnos er caniatáu i'r cyhoedd gyflwyno ymatebion i'r bwriad.

4. Cytunwyd i dderbyn adroddiad pellach i ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwyd (yn dilyn y cyfnod ymgysylltu) er mwyn gwneud y penderfyniad i gadarnhau y Cyfarwyddyd Erthygl 4.

5. Dirprwywyd hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud addasiadau golygyddol i'r rhybudd cyn ei gyhoeddi.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

---

Mae newidiadau i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 i greu 3 dosbarthiad defnydd newydd ar gyfer Prif Gartrefi (C3), Ail Gartrefi (C5) a Llety Gwyliau Tymor Byr (C6). Pe ystyrir yn briodol, er mwyn rhwystro a chael rheolaeth o'r newid defnydd digyfyngiad rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol y grym i gyflwyno beth a Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal benodol.
Roedd angen penderfyniad gan y Cabinet ar briodoldeb defnyddio yr hawl yma.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 8: YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – CYNIGION AR GYFER BIL ADDYSG GYMRAEG

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad Papur Gwyn – Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, Llywodraeth Cymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Bapur Gwyn ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig. Roedd angen penderfynu ar ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 9: CYFRIFON TERFYNOL 2022/23 – ALLDRO REFENIW

**PENDERFYNIAD**

1.1 Nodwyd sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2022/23.

1.2 Cymradwywyd symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef:

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 100 |
| Plant a Theuluoedd | 76 |
| Addysg | (96) |
| Economi a Chymuned | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amgylchedd | 6 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 0 |
| Tai ac Eiddo | 0 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (17) |
| Cyllid | (10) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (16) |

1.3 Cymeradwywyd argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u hegluro yn Atodiad 2):

- Yn yr Adran Addysg, fod £1,304k o gostau ychwanegol chwyddiant trydan a chyflogau cymorthyddion a staff gweinyddol yn yr ysgolion sydd uwchlaw'r gyllideb yn cael eu cyllido o falansau'r ysgolion unigol.

- Yn yr Adran Tai ac Eiddo fod £2,482k o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r pwysau ychwanegol yn y maes Digartrefedd.

- Cymorth ariannol o £550k i'r Adran Economi a Chymuned gan fod sgil effaith Covid wedi amharu ar lefelau incwm Cwmni Byw'n Iach.

- Yr adrannau canlynol sydd yn gorwario i dderbyn cymorth ariannol un-tro gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario 'mlaen gan yr Adran i £100k:

a. £3,785k – Oedolion, Iechyd a Llesiant
b. £2,434k – Priffyrdd a Bwrdeistrefol

- Ar gyllidebau Corfforaethol:
  a. Defnyddio (£2,851k) o’r tanwariant net Corfforaethol i gynorthwyo’r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.
  b. Fod (£3,899k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu’r rhaglen gyfalaf
  c. Gyda gweddill y tanwariant net o (£952k) ar gyllidebau Corfforaethol yn cael ei drosglwyddo i’r Gronfa Trawsffurfio i gyllideb blaenoriaethau’r Cyngor.

1.4 Cymeradwyo’r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adroddiad o’r cronfeydd, gan gynaeafu (£3,918k) o gronfeydd a’i ddefnyddio yn ei gyfanrwydd i gynorthwyo’r adrannau sydd wedi gorwario yn 2022/23.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau’r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i’r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol a’r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 10: RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2023)

---

**PENDERFYNIAD**

1. Derbynwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2023) o'r rhaglen gyfalaf.

2. Nodwyd gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23, fydd yn cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2022/23.

3. Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
   - £68,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
   - £30,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
   - £701,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
   - £797,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol) ac er mwyn caniatáu i'r cyfrifon terfynol ffurfiol gael eu cwblhau

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2022/23 – 2024/25.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU**

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 11: ADOLYGIAD O GYNLLUN GWEITHEDU TAI CYNGOR GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

1. Cymeradwywyd ychwanegiadau cyllidol i brosiectau unigol o fewn y Cynllun Gweithredu Tai fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 6.4 o'r Adroddiad.

2. Cymeradwywyd addasiad i'r achos busnes gwreiddiol ar gyfer benthyca er mwyn prynu tai i'w gosod i drigolion lleol, a gymeradwywyd gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, 2021, drwy wneud defnydd o £5.6m o'r Premiwm Treth Cyngor.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nid oes penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud hyd yma ar sut i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol o'r Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor pan benderfynwyd codi'r Premiwm o 50% i 100%, yn weithredol o Ebrill 2022. Rhannwyd arweiniad er mwyn galluogi'r adran i symud ymlaen i wneud gwaith pellach cyn cyflwyno adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar y cyfle cyntaf.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mehefin 2023 |

**PWNC**

Eitem 12: ADDASIADAU I'R CYFANSODDIAD CYNLLUN DIRPRWYO: ADRODDIAD SWYDDOG MONITRO

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr addasiadau i Adran 13 (3) o'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Swyddogion a ddangosir yn Atodiad 1.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae dyfodiad ystod o gronfeydd grantiau newydd yn amryw o ffynonellau a maint wedi amlygu angen i diweddaru hawliau dirprwyedig er sicrhau eu bod yn briodol ac addas i gefnogi gweinyddiaeth effeithlon o geisiadau.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.